

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN
CYMRU**



MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

**COFNODION
CYFARFOD AILDDECHREUEDIG YR AWDURDOD TÂN**
Ystafell Caer,
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Caerfyrddin
16 RHAGFYR 2013

**MINUTES
OF THE RECONVENED FIRE AUTHORITY MEETING**
The Caer Suite,
Fire and Rescue Service Headquarters, Carmarthen
16 DECEMBER 2013

11.00 – 13.30

84% PRESENOLDEB / ATTENDANCE

Presennol yn y Cyfarfod / Present at Meeting:

CADEIRYDD / CHAIR:
DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY
CHAIR:

R Llewellyn
G Thomas

AELODAU / MEMBERS:

Cyng./Cllrs: D Cole, K W Curry,
W E Evans, L Frayling, T Hennegan,
C Higgins, P James, G Jones, A Lewis,
C Lloyd, S Paddison, K Pearson,
R Rees-Evans, K Tampin, W D Thomas,
G Walker, A Wilcox, D E Williams, J
Curtice

YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:

Cyng./Cllrs: J Williams, J Dudley, R Lewis

YN BRESENNOL / IN ATTENDANCE:

R Smith, P Bates, D Daycock, D Masson,
E Aitken, K Jones, S Flather, C Jackson

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J Williams, J Dudley ac R Lewis.

2 DATGANIADAU GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANNAU PERSONOL NEU SY’N RHAGFARNU

Fe wnaeth pob un o’r Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan bod ganddynt fuddiant personol yn unrhyw fusnes sy’n ymwneud â, neu sy’n effeithio ar eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

Fe wnaeth y Cyng. A Lewis ddatgan buddiant personol, oherwydd ei bod hi’n gweithio i’r Gwasanaeth Tân.

3 CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD / MATERION PERSONOL

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu unrhyw bersonau allanol i’r cyfarfod a dywedodd wrthynt nad oeddent i gyfranogi yn y cyfarfod.

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod ceisiadau wedi cael eu derbyn oddi wrth Mr C Margetts ar ran Cymdeithas y Swyddogion Tân, a Mr I Smith ar ran UNISON, i siarad mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda. Dywedwyd wrth yr Aelodau, oherwydd bod y cyfarfod yn ailddechrau’r cyfarfod blaenorol, ni dderbyniwyd y cais o fewn y 3 diwrnod clir sy’n ofynnol yn unol ag Erthygl 3 o Gyfansoddiad yr Awdurdod, fodd bynnag, roedd yn agored i’r Aelodau i ohirio’r rheol sefydlog, er mwyn galluogi i Mr Margetts a Mr Smith i annerch yr Awdurdod am nid mwy na phum munud yr un.

Derbyniwyd cais oddi wrth Mr B Davies hefyd, ar ran Undeb y Brigadau Tân, eto i siarad mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda. Fodd bynnag, nid oedd y Cadeirydd yn teimlo bod y cais yn briodol, oherwydd y ffaith fod Mr Davies yn dymuno mynd i’r afael â’r un eitem ag yn y cyfarfod blaenorol, a theimlodd y byddai’n ymestyn yr hawl i lefel amhriodol. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelodau eu bod yn teimlo y byddai’n briodol caniatáu i’r holl bartïon a oedd yn mofyn siarad yn y cyfarfod i wneud hynny.

Cynigodd y Cynghorydd C Lloyd bod yr Aelodau’n caniatáu i Mr B Davies i siarad ar ran Undeb y Brigadau Tân, ac eiliwyd y cynnig.

Yn unol ag Erthygl 19.35 o’r Cyfansoddiad, cynigwyd gohirio’r Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Mr Margetts, Mr I Smith a Mr B Davies i annerch yr Awdurdod am 5 yr un, ac eiliwyd y cynnig.

Wedi cyflwyno’r cynnig, cafodd ei gario.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD gohirio'r Rheolau Sefydlog yn unol ag Erthygl 19 o'r Cyfansoddiad, er mwyn galluogi Mr C Margetts, Mr I Smith a Mr B Davies, yn ôl eu trefn, i annerch yr Awdurdod am nid mwy na 5 munud yr un, mewn perthynas ag eitem 4 ar yr Agenda. Estynnwyd yr hawl i Mr B Davies i annerch yr Aelodau hefyd.

Fe wnaeth Mr C Margetts gyflwyno dogfen i'r Aelodau, a oedd yn awgrymu dulliau amgen o gyflawni gostyngiad yn y gyllideb.

Gofynnodd un Aelod am ffigyrau mwy manwl oddi ar y System Californian, yn seiliedig ar y codiad o 17.5%, er mwyn i'r Aelodau i ystyried ymhellach. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau, gyda'r codiad o 17.5%, byddai'r Awdurdod yn arbed £686,000 ar draws yr holl orsafoedd llawn amser.

Fe wnaeth Aelod atgoffa'r Aelodau eraill yn y cyfarfod eu bod nhw yno i gynrychioli'r Awdurdod Tân, yn unol â'r Cyfansoddiad, ac nid i weithredu er lles eu sefydliad gwleidyddol.

Gorffennodd y cyflwyniadau ac ailgyflwynwyd y Rheolau Sefydlog.

4 I DDERBYN CYD-ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG TÂN A'R CYFARWYDDWR ADNODDAU AR OFYNION Y GYLLIDEB AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2014/15 (eitem 7 a ohirwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar y 9^{fed} o Ragfyr 2013)

Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân (PST) annerch yr Aelodau ymhellach ar yr adroddiad. Adroddodd y PST bod yr amrywiaeth o amcanion gwella a osodwyd gan yr Awdurdod wedi gwella lefel y gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer cymunedau lleol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, fel y dangoswyd gan y tuedd tuag i lawr parhaus yn nifer y tanau, yr anafiadau a'r marwolaethau, blwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ei farn ef, roedd y fath welliannau wedi darparu gwasanaeth dosbarth cyntaf, yn unol â chefnidir o bwyseddau ariannol sylweddol mewn hinsawdd economaidd heriol.

Rhodddodd y PST drosolwg i'r Aelodau o'r meysydd lle gwnaethpwyd cynnydd yn unol ag amcanion yr Awdurdod, o ran diogelwch yn y gymuned ac ymateb gweithredol. Rhoddwyd amlinelliad o lwyddiannau'r Awdurdod ym meysydd rheoli risg, rheoli pobl, cydweithio, rheoli adnoddau a rheoli perfformiad hefyd. Adroddodd y Prif Swyddog Tân bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mai 2013, a ddaeth i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, er y cydnabuwyd bod y sefydliad yn wynebu sialensiau parhaus wrth roi'r newidiadau bwriadus i wasanaethau ar waith. Dywedodd y PST bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad yn seiliedig ar drefniadau cynllunio busnes gwell yr Awdurdod, ei fod yn rheoli sialensiau ariannol yn effeithiol, y cynnydd a wnaed wrth ymdrin â chynigion ar gyfer gwella yn y gorffennol, gwell ymagwedd at ymgysylltu â'r cyhoedd a hefyd oherwydd ei drefniadau llywodraethu cadarn.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân bwysigrwydd cyflwyno gostyngiadau bwriadus yn y

gyllideb, yn unol â strategaeth ariannol tymor canolig yr Awdurdod, er mwyn sicrhau effaith finimol ar allu'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau tân ac achub ar gyfer y cymunedau a wasanaethir.

Cydnabuwyd y byddai angen i'r Awdurdod i fantoli cefndir economaidd cynyddol lym gyda'i nodau a'i uchelgeisiau, a fyddai'n profi'n sialens o ystyried lefel bosib y gostyngiad yn y gyllideb a fydd yn angenrheidiol.

Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân atgoffa'r Aelodau bod yn rhaid iddynt benderfynu ar ofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2014/15 wrth ystyried math a lefel y gwasanaeth y byddent yn dymuno i'w Gwasanaeth Tân i ddarparu ar gyfer trigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dylai'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Swyddogion ar gyfer yr Aelodau eu cynorthwyo nhw gyda'u hystyriaethau.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau, os ydynt yn dymuno cadw at gyllideb ddigyfnewid, gan ddarparu'r gwasanaethau presennol ar yr un lefel, byddai'n bosib i'r Aelodau i wneud hyn trwy gynyddu'r gyllideb gan tua £800,000 (2% o'r gyllideb) ychwanegol, yn gyffredinol.

Dywedodd y PST mai'r confensiwn fyddai i'r Awdurdod Tân i osod gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol gan efelychu'r newid cyfartalog yn y Setliad Grant Cymorth Refeniw ar gyfer y chwe awdurdod unedol. Yn 2014/15, byddai hyn yn golygu gostwng gofynion y gyllideb gan £2.7 miliwn. Yn anochel, byddai gostwng y gyllideb gan swm fel hyn mewn blwyddyn yn cael effaith ar fath a lefel y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer ein cymunedau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, fel arall, gallent benderfynu gosod cyllideb rhwng dau begwn y raddfa. Fodd bynnag, oni bai bod yr Aelodau'n penderfynu codi'r gyllideb gan £800,000 ar gyfer y flwyddyn nesaf, fe fyddai yna effaith ar y gwasanaeth y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei ddarparu ar gyfer cymunedau. Rhoddwyd opsiynau i'r Aelodau i'w cynorthwyo wrth ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, a byddai pob un ohonynt yn cael effaith ar y sefydliad.

Rhybuddiwyd yr Aelodau yn erbyn gosod cyllideb a fyddai'n gwrthdaro â'u dyletswyddau statudol, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub a gofynion deddfwriaethol eraill. Roedd pob un o'r opsiynau a roddwyd i'r Aelodau'n eu galluogi nhw i aros o fewn eu dyletswyddau statudol.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân fod y rhagolwg ar gyfer 2015/16 yn cynnwys gostyngiad pellach posib o £1.5 miliwn, gyda'r rhagdybiaeth y byddai 2016/2017 yn cyflwyno sialensiau pellach. Roedd ffigyrau mynegol dros y tair blynedd nesaf ar gael ar gyfer yr Aelodau, ynghyd â'r defnydd posib o gronfeydd wrth gefn, er mwyn gwastadu'r gofynion o ran arbedion.

Yna, soniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau am yr adroddiad, a dywedodd wrth yr Aelodau nad oedd y setliad terfynol oddi wrth Lywodraeth Cymru, a dderbyniwyd ar yr 11^{eg} o Ragfyr 2013, yn cyflwyno unrhyw newid o'r gyllideb fynegol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gofyn iddynt i sefydlu arbedion effeithlonrwydd derbyniol, tra'n ystyried cyfanswm y cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio ar yr un pryd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau enghreifftiau i'r Aelodau o wahanol ddefnyddiau o gronfeydd wrth gefn, fel y dangoswyd yn atodiadau G1, G2, G3, a thynnodd sylw at yr arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol ac effaith canran y codiad/gostyngiad ar awdurdodau cyfansoddol. Roedd Atodiad C2 yn rhoi opsiynau i'r Aelodau, a fyddai'n galluogi i arbedion effeithlonrwydd i gael eu gwneud heb gael effaith niweidiol ar y gwasanaeth a ddarperir. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau esboniad manwl i'r Aelodau o sut i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a'r effaith bosib ar y gyllideb mewn blynyddoedd i ddod.

Cynigodd y Cadeirydd yr argymhellion, a gofnodwyd yn briodol, i'w trafod.

Holodd un Aelod am y rhesymwaith tu ôl i uno'r ardaloedd rheoli, yn arbennig uniad bwriadus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn y flwyddyn gyntaf, ac yna uniad bwriadus Sir Benfro a Cheredigion yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, a holodd p'un ai byddai'n ddoeth gohirio uno Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gan un flwyddyn, nes bod Adroddiad Williams ar gael. Dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y Cynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2014/2015 yn cynnwys cynigion i wneud trefniadau criwio mwy effeithiol, tra ei fod yn gwneud trefniadau effeithiol i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ar draws y Gwasanaeth ar yr un pryd. Trwy hyn, nodwyd y byddai Ardaloedd Rheoli Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn uno yn y flwyddyn gyntaf, yn amodol i drafodaethau. Esboniodd y PST y byddai Adroddiad Williams, ynghyd ag adolygiad arall gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2014, ac mae'n bosib byddent yn galluogi swyddogion ac Aelodau i ystyried arbedion penodol wrth drafod a chynllunio'r uniadau.

Esboniodd y PST bod cais am fynegiadau o ddiddordeb wedi cael ei hysbysebu i staff o fewn y Gwasanaeth Tân ar gyfer y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n dymuno ystyried ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad. Byddai nifer y mynegiadau yn rhoi blas o'r arbedion y gellid eu disgwyl. Fodd bynnag, gellid amcangyfrif y byddai'r ffigwr rhywle o gwmpas £200,000.

Fe wnaeth un Aelod fynegi pryder am uniad posib rolau rheolwr canol, sy'n cyfateb i ostyngiad o 50% mewn Rheolwyr Ardal, a fyddai'n arwain yn y pen draw at lwythau gwaith yn fwy. Roedd y Prif Swyddog Tân yn cytuno y byddai llwythau gwaith yn cynyddu, fodd bynnag, ei farn broffesiynol ef oedd y byddai modd cyflawni hyn oherwydd yr angen i ddarganfod costau. Dywedodd y Prif Swyddog Tân hefyd y byddai'r mater yn cael ei ystyried ochr yn ochr â threfniadau strwythurol eraill, megis staff cymorth a threfniadau llywodraethu'r Awdurdod Tân.

Holodd un Aelod p'un ai gellid sefydlu is-bwyllgor cyllid ychwanegol i ystyried arbedion effeithlonrwydd i'r gyllideb yn y dyfodol, oherwydd teimlwyd nad yw'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau'n cwrdd yn ddigon rheolaidd i ystyried y manylion ariannol. Dywedodd Clerc yr Awdurdod Tân y gellid trefnu cyfarfod ychwanegol yn anffurfiol neu, fel arall, gallai'r Fforwm Gwasanaethau Democraidd fod yn gyfrwng i wneud hyn.

Awgrymodd un Aelod efallai byddai o fudd i'r Aelodau i drefnu cyfarfod anffurfiol, er mwyn nodi arbedion effeithlonrwydd posib, gan eu hystyried nhw'n fanylach yn y

cyfarfodydd ffurfiol.

Dyweddodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau ei bod hi'n debygol y bydd adolygiad o'r strwythur cyfarfodydd a'r strwythur llywodraethu'n cael ei gynnal ar ddechrau 2014.

Cafwyd cais gan Aelod bod strwythurau'r Awdurdod Tân yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Gwasanaethau Democrataidd, lle gellir cyflwyno syniadau, a bod ei argymhellion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân.

Cynigodd y Cyng. C Lloyd ddiwygiad, ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

"Bod yr Awdurdod yn ceisio gwneud toriadau minimol eleni, er mwyn cyrraedd y gostyngiad o -1.56%, ond i beidio â diystyru'r defnydd o gronfeydd wrth gefn o £880,000 er mwyn cyflawni -3% ar gyfer yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynnwys cyfuniad o arbedion effeithlonrwydd a chronfeydd wrth gefn."

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau rybuddio'r Aelodau unwaith eto am gytuno i arbed 1.7 miliwn, heb ddynodi pa arbedion effeithlonrwydd fyddai'n cael eu gwneud. Yn ogystal, byddai hyn yn galw am swm sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn, a fyddai'n cael ei ychwanegu at ofynion arbedion 2015/16 ar ben yr £800,000 o arbedion effeithlonrwydd sy'n rhaid dod o hyd iddynt, er mwyn darparu cyllideb ddigyfnewid. Esboniodd y Cyfarwyddwr ymhellach, i ychwanegu at yr anawsterau, byddai'r Aelodau'n wynebu pwysau oddi wrth yr Awdurdodau Cyfansoddol i ostwng yn unol â gostyngiad cyfartalog yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Cynigodd y Cynghorydd C Lloyd ddiwygiad pellach, ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

"Bod gostyngiad o -3% yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael ei gymeradwyo, gydag opsiynau penodol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd i gael eu hymdrin gan yr Awdurdod Tân."

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario.

Cynigodd y Cynghorydd C Lloyd ddiwygiad pellach, ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

"Bod y gwahaniaeth yn y balans rhwng 1.7 miliwn (-1.56%) a -3% yn dod o'r cronfeydd wrth gefn."

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario.

Yn dilyn trafodaeth, cynigodd y Cynghorydd C Higgins ddiwygiad pellach, ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

"Bod yr Awdurdod yn diystyru yn benodol y newidiadau a draethwyd yn opsiwn 2 (yn yr Atodiad C gwreiddiol), i newid criwio i 'ar alwad' yn Rhydaman, Doc Penfro ac Aberdaugleddau."

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario (roedd y diwygiad hwn yn ailadrodd diwygiad cynharach i raddau helaeth).

Cynigodd y Cynghorydd A Lewis ddiwygiad, ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

“Bod gostyngiad o -1.56% yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael ei gymeradwyo, gydag opsiynau penodol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd i gael eu hymdrin gan yr Awdurdod Tân, gyda lefel y gyllideb a ddewiswyd ar gyfer 2014/15 yn cael ei ariannu'n rhannol gan £880,000 o gronfeydd wrth gefn.”

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario (roedd y diwygiad hwn yn ailadrodd diwygiad cynharach i raddau helaeth).

Yn y fan hon, esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod hyn yn galw am wneud arbedion o £1m.

Dywedodd Aelod y dylid cyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy ailstrwythuro a hyfforddi staff cymorth a rheolwyr, fel y traethwyd yn opsiwn 2.

Holodd un Aelod am yr effaith ar y ddarpariaeth o hyfforddiant a beth fyddai'r risgiau a'r problemau, oherwydd ei fod wedi'i restru fel arbediad effeithlonrwydd yn opsiwn 2, a byddai felly yn cael effaith ar lefel y gwasanaeth a ddarperir. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Tân byddai lefel y gwasanaeth a ddarperir gan yr opsiwn ailstrwythuro hyfforddiant yn cael ei effeithio oherwydd goblygiadau dileu swyddi o adran fach. Yn anochel, byddai hyn yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gofynnodd y Cynghorydd G Walker am gostau'r uned tanau bach a leolir yn Abertawe, oherwydd teimlwyd bod darparu'r uned hon y tu hwnt i'r angen yn yr ardal honno a gallai gwaredu'r uned greu arbedion sylweddol. Cytunodd y Prif Swyddog Tân i flaenyrru'r costau i'r Cynghorydd Walker.

Yn dilyn ymholiad gan Aelod mewn perthynas â rôl sector heb lifrai'r Awdurdod Tân, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth yn cyflogi swyddogion cymorth arbenigol sydd â phrofiad a chymwysterau arbennig o fewn eu rôl nhw, felly, yn annhebyg i staff gweithredol, byddai'n profi'n anodd i ddileu, cyfnewid neu uno rolau arbenigol staff cymorth. Esboniodd y PST, fel y dywedodd yn gynharach, roedd y Gwasanaeth wedi hysbysebu'n ddiweddar ar gyfer mynegiannau o ddiddordeb oddi wrth staff heb lifrai, yn unol â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mewn perthynas â phwy fyddai'n ystyried pecynnau ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad, a fyddai'n galluogi'r Gwasanaeth i adolygu ei strwythur staff heb lifrai, gydag arbediad amcangyfrifol o £200,000.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar arbedion effeithlonrwydd, cynigodd y Cynghorydd C Higgins ddiwygiad, ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

“Byddai arbedion effeithlonrwydd o £200,000 yn cael eu cyflawni wrth ailstrwythuro'r staff cymorth.”

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario.

Ceisiodd un Aelod eglurhad bod y codiad o 17.5% o'r rôl Californian yn bensiynadwy. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau fod y 17.5% yn rhannol bensiynadwy.

Cynigodd y Cynghorydd A Lewis ddiwygiad:-

“Bod yr Aelodau'n derbyn y system Sifftiau Rôl Californian, fel rhan o drafodaethau Bae Abertawe ar gyfer y gorsafoedd llawn amser, er mwyn arbed £686k”.

Yn y fan hon, dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau bod y systemau a'r trefniadau yr oedd staff yn cael eu criwio yn seiliedig arnynt, fel y traethwyd yn y Cyfansoddiad, yn fater i reolwyr y Gwasanaeth Tân a bod y rheolwyr yn y broses o drafod y mater hwn gyda'r Undebau perthynol. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau nad oedd y cynnig hwn yn dod dan awdurdodaeth yr Awdurdod Tân.

Awgrymodd y Cynghorydd A Lewis bod y diwygiad arfaethedig yn cael ei addasu i adlewyrchu *“arbediad o £686k trwy newidiadau i'r trefniadau criwio, tra'n aros am ganlyniad y trafodaethau”*, a chytunodd y Prif Swyddog Tân. Fe wnaeth y Cynghorydd A Lewis wrthod yr awgrym i geisio gwybodaeth bellach am y system griwio wahanol. Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â'r diwygiad arfaethedig, a dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod hi i fyny i Aelodau'r Awdurdod Tân i osod paramedrau i Reolwyr y Gwasanaeth Tân i ymarfer eu hawliau oddi fewn iddynt. Fe wnaeth y Clerc rybuddio'r Aelodau yn erbyn gwneud penderfyniadau am bolisiau yn y cyfarfod hwn heb yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol o'u blaenau, a allai orfodi'r Prif Swyddog Tân i weithredu yn ei rôl fel rheolwr.

Dywedodd Aelod y deallir bod y trafodaethau wedi dod i ben yn ystod y broses o osod cyllideb. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod y trafodaethau rhwng y Gwasanaeth Tân a'r Undebau'n parhau ar hyn o bryd.

Tynnodd y Cynghorydd A Lewis y diwygiad yn ôl.

Awgrymodd un Aelod bod yr arbedion effeithlonrwydd penodol canlynol (amlinellwyd yn opsiwn 1, Atodiad C) yn cael eu rhoi ar waith, fel nad oeddent yn effeithio ar lefelau'r gwasanaethau a ddarperir, a fyddai'n arwain at arbedion o £840,000:-

Mater Polisi	£000'au 2014/2015
<i>Cyflenwadau a Gwasanaethau</i>	-100
<i>Ymddeoliadau ar sail afiechyd</i>	-100
<i>Amddiffyniadau'n diweddu</i>	-80
<i>Dros sefydliad wedi'i ryddhau bellach</i>	-220
<i>Gwasanaethau Cyhoeddus</i>	-160
<i>Rhybuddio dethol ar gyfer gorsafoedd 2 beiriant</i>	-180
Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd	-840,000

Gan hynny, cynigodd y Cynghorydd P James i wneud arbedion effeithlonrwydd o

£840,000 o opsiwn 1 (Atodiad C2) a chafodd ei eilio; fel a ganlyn:

“Bod yr Awdurdod yn gwneud arbedion o £840,000 o’r arbediad effeithlonrwydd yn unol â’r penawdau a amlinellwyd yn opsiwn 1 (Atodiad C2).”

Wedi cyflwyno’r diwygiad, cafodd ei gario.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau bod yr arbedion a enwyd ar hyn o bryd yn cyfateb i £1 filiwn, ynghyd â £40,000 pellach, a dywedodd wrth yr Aelodau fod hyn yn uwch na’r targed o £1 filiwn.

Cynigodd y Cynghorydd C Higgins ddiwygiad ac eiliwyd ef. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

“I ostwng yr ailstrwythuro staff cymorth gan £40,000.”

Wedi cyflwyno’r diwygiad, cafodd ei gario.

Esboniodd y Prif Swyddog Tân mai’r arbediad targed fyddai’n cael ei wneud o ailstrwythuro staff cymorth fyddai £160,000 ac nid £200,000.

Awgrymodd un Aelod bod £40,000 yn cael ei osod yn ôl yn y cronfeydd wrth gefn, er mwyn lleihau’r anawsterau ariannol a fyddai’n amlygu’n anochel yn y dyfodol.

Oherwydd pryderon mewn perthynas â dibynnu ar gronfeydd wrth gefn, awgrymodd un Aelod bod yr arbedion o’r strwythur rheoli a hyfforddiant yn cael eu cynnwys, a fyddai’n cyfateb i £225,000 ychwanegol, ac arbedion cyffredinol o £1,225,000.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau bod adolygiad o’r strwythur rheoli uwch swyddogion mewn lifrai wedi cael ei gynnal, er mwyn dod o hyd i arbedion, a’i fod wedi arwain at ddiswyddo 1 Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a 2 Rheolwr Grŵp B, sy’n cyfateb i arbedion o tua £300,000. Fodd bynnag, os mai penderfyniad yr Aelodau fydd i’r arbedion i fod yn £200,000 yn hytrach na £300,000, yna byddai’r Prif Swyddog Tân yn medru ail-archwilio’r cynigion.

Yn dilyn trafodaeth, cynigodd y Cynghorydd K Curry ddiwygiad, a chafodd ei eilio.

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

“Bod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu sylweddoli o’r strwythur Hyfforddi a Rheoli, a fydd yn cyfateb i arbedion pellach o £225,000.”

Wedi cyflwyno’r diwygiad, cafodd ei gario.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau, yn dilyn y penderfyniadau a wnaed, roedd y swm sy’n ofynnol o’r cronfeydd wrth gefn yn £655,000, ar hyn o bryd.

Cynigodd y Cynghorydd A Lewis ddiwygiad, a chafodd ei eilio. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

“Bod eitemau y gellir eu gohirio o fewn y rhaglen gyfalaf yn cael eu gohirio am 12 mis, er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd o rhwng £50,000 - £60,000, a fyddai yna'n dychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn.”

Wedi cyflwyno'r diwygiad, cafodd ei gario.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau y byddai adroddiad ar yr adeilad segur yn Nhreforys yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng Nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ar y 10^{fed} o Chwefror 2014.

Esboniodd y Prif Swyddog Tân bolisïau diswyddo ac ymddeoliad cynnar yr Awdurdod i'r Aelodau.

Holodd un Aelod sut mae'r Aelodau'n bwriadu cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth, dywedodd Clerc yr Awdurdod Tân wrth yr Aelodau y byddai'r Fforwm Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried sut oeddent yn bwriadu gwneud hyn, a byddai'r cynigion hynny'n cael eu cyflwyno yng nghyfarfod dilynol yr Awdurdod Tân.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD:-

- 1. Bod y cynnig terfynol yn cael ei gytuno ac felly bod y gyllideb yn cael ei gosod fel bod gostyngiad o -1.56% yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael ei geisio.***
- 2. Bod arbedion effeithlonrwydd o £1,275,000 yn cael eu gwneud ar gyfer 2014/15, ynghyd â'r defnydd o £605,000 o'r cronfeydd wrth gefn.***
- 3. Bod y rhaglen gyfalaf, fel y dangoswyd hi, yn cael ei gohirio'n ddigonol i ryddhau £50,000 o'r cyfrif refeniw.***
- 4. I gymeradwyo'r rhaglen amnewid cerbydau sy'n amgaeëdig yn Atodiad D.***
- 5. Bod y Cyfarwyddwr Adnoddau'n cael ei awdurdodi i benderfynu ar y dull priodol o ariannu cerbydau (bydded hynny ar brydles neu fel arall) ar adeg eu caffael.***
- 6. I gymeradwyo'r ystyriaeth a roddwyd i bolisïau diswyddo ac ymddeoliad cynnar yr Awdurdod.***

5 I DDERBYN UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYYS YN UNOL AG ADRAN 100(B)(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:30.

